# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Mawrth, 26 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Bwrdeisiol a Chydymffurfiaeth;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 2.15 pm - 2.40 pm

**1. DATGANIADAU OF FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 12 CHWEFROR, 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.**

**3. ADOLYGIAD O ORIAU AGOR CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS YN LLANSTEFFAN A PHENTYWYN**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynnwys cynigion i newid oriau agor y cyfleusterau cyhoeddus yn Llansteffan a Phentywyn (Springwell) i ddau ddeg pedwar awr. Rhagwelwyd y byddai'r gost gymharol fawr o weithredu cyfleusterau cyhoeddus Llansteffan yn lleihau'n sylweddol drwy waredu'r angen am agor a chloi'r safle yn ddyddiol ac hefyd byddai ymwelwyr â'r lleoliad hwn, sy'n boblogaidd ymysg twristiaid, hefyd yn cael budd o gyfleusterau heb gyfyngiad. Roedd yr un rhesymau hefyd yn berthnasol i agor cyfleusterau cyhoeddus Pentywyn (Springwell) dros dro. Byddai'r cynigion yn lleihau costau presennol y gwasanaeth glanhau a chynnal a chadw tiroedd oddeutu £12,500.00

**PENDERFYNWYD, yng ngoleuni'r gwasgfeydd ariannol ac yn amodol ar barhau i archwilio opsiynau eraill, fod cyfleusterau cyhoeddus Llansteffan ar gael ddau ddeg pedwar awr yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad, ac am yr un rheswm, bod cyfleusterau cyhoeddus Pentywyn (Springwell) yn ailagor dros dro ac ar gael yn yr un modd.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL**      **DYDDIAD**